



Llwybr Cendl



Taith 5 Llwybr Cendl

Taith gymedrol, 3.5 milltir - 6 cilomedr, 1.5 awr

Man cychwyn - Clwb Badminton, Cendl (SO189 109).

Evch i fyny Beaufort Terrace, heibio “Furnace Street” ar y chwith ac ar ôl rhyw 200m fe ddewch at ardal drionglog agored. Roedd y fan hon yn ardal waith o flaen ffwrneisi a thai cast Gwaith Haearn Cendl.



Trowch i'r dde ac ar ôl ychydig fetrau fe welwch rwystr ar y chwith a grisiau ar y dde. Roedd ffwrneisi chwyth Gwaith Haearn Cendl yn gorwedd ar y llethr y tu ôl i'r grisiau.

Sefydlwyd **Gwaith Haearn Cendl** yn 1779 gan y teulu Kendall ac aeth yr ymadrodd Cymraeg “Gwaith Kendall” yn



“Gwaith Cendl” ac yna'n “Cendl”. Yn 1780 adeiladwyd ffwrnais gyntaf Cendl a defnyddiwyd

olwyn ddŵr i gyflenwi'r chwyth. Roedd injan arbennig yn pwmpio dŵr yn ôl i uchder o 46 troedfedd i'w ddefnyddio eto ar yr olwyn ddŵr. Erbyn 1830, roedd y gwaith yn eiddo i Crawshay Bailey o Nant-y-glo ac adeiladwyd tramffordd a llethr newydd i gysylltu'r ddau le. Erbyn 1880 roedd a lle ar gau.

Evch yn eich blaen i Cambridge Gardens am 100m a chymryd y troad cyntaf i'r dde i “Plas y Coed”.

Dyma'r hen fynedfa i Dŷ Cendl – plasty'r teulu Kendall. Ar ôl rhyw100m fe welwch raeadr ar y dde. Mae'r dŵr yn dod o hen lefel glo oedd yn orlif ar gyfer yr olwyn ddŵr oedd yn cynhyrchu'r chwyth ar gyfer y ffwrnais gyntaf ar y safle.

Dychwelwch i lawr yr allt at y rhwystr. Dringwch y grisiau gyferbyn â'r rhwystr ac ewch yn igam-ogam i fyny llethr y ffwrnais gyda safle'r ffwrneisi'n ymestyn ar y ddwy ochr.

Ar ben y llethr, fe ddewch i mewn i faes parcio ble roedd y ffyrnau golosg ar un adeg. Croeswch drosodd i Bryn Kendall. Croeswch dros Bryn Awelon Road i gymryd llwybr cerdded i fyny allt am 300m. Dyma'r llethr (“yr inclein”) a adeiladwyd i gysylltu Cendl gyda Nant-y-glo ar ôl i'r teulu Bailey gymryd drosodd yn 1833.



Inclein ar waith

Ar frig y llwybr cerdded, fe ddewch at ffordd, sy'n dal i gael ei hadnabod fel “Yr Inclein” yn lleol. Trowch i'r chwith a cherdded i fyny'r allt am 40m, yna croeswch y ffordd a cherdded ymlaen i fyny'r llwybr cerdded. Ar y brig, fe ddewch i Parkhill Crescent. Trowch i'r chwith ac yna'n syth i'r dde.

Y tu hwnt i'r garej ar y chwith, fe welwch fynedfa twnnel rheilffordd a adeiladwyd gan Reilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni (MT & A). Roedd y rheilffordd yn rhedeg ble mae'r byngalos yn sefyll bellach.

Parhewch nes dod at rwystr metel yn y fynedfa i Ysgol Pen y Cwm. Ar y ffordd, byddwch yn mynd heibio Capel Seion (1849). Mae tramffordd 1833 Cendl i Nant-y-glo nawr yn gorwedd o'ch blaen fel llwybr cerdded tarmac. **Dilynwch y llwybr trwy Parc Nant y Waun i'r tai cyntaf yn Warwick Road ym Mrynawr.** Mae hen llwybr Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni yn gorwedd i'r dde. Roedd y pwll mawr yn cyflenwi dŵr i Waith Haearn Nant-y-glo. Roedd Rheilffordd Clydach 1793 oedd yn cysylltu Gwaith Haearn Cendl gyda'r gamlas yng Ngilwern yn rhedeg ar ochr arall y pwll.

Ar ddiwedd Warwick Road, mae ffordd fach yn rhedeg i'r chwith ar hyd ffin Parc Welfare. Hon oedd Tramffordd Disgwylfa a adeiladwyd tua 1816 i gyflenwi Gwaith Haearn Nant-y-glo gyda chalchfaen o Chwareli Carreg Bica (“The Lonely Shepherd” yn Saesneg). Pan gyrhaeddodd Rheilffordd MT & A, roedd yn rhaid creu tanffordd i lein Disgwylfa a gellir ei gweld yng ngwaith carreg y rheilffordd ble mae'r llwybr cerdded tarmac modern yn pasio dan y rheilffordd.

Wrth i chi barhau tu hwnt i Tramffordd Disgwylfa byddwch yn pasio Parc y Welfare ar y chwith. Dyma oedd safle Pwll Heathcock cyn iddo gael ei ddraenio, un arall o byllau cyflenwi Nant-y-glo.

Parhewch ar hyd y ffordd (yn dilyn Tramffordd Llangatwg Bailey) am 600m i Sgwâr y Farchnad. Roedd Tramffordd Llangatwg Bailey yn ymrannu yn y sgwâr ac roedd cangen yn rhedeg i'r dde i lawr Station Road i gyfeiriad ‘Limestone Road’ a'r gwaith haearn.

Dilynwch eich camau yn ôl ar draws y sgwâr, croeswch y ffordd B4248 a throi yn ôl i mewn i Warwick Road. Cymerwch y llwybr cerdded tarmac i'r chwith.

Roedd hwn yn rhan arall o Dramffordd Llangatwg Bailey ac roedd yn rhedeg i ran hynaf Gwaith Haearn Nant-y-glo ar lan ddwyreiniol Ebwy Fach.



Gwaith Haearn Nantyglô, 1829

Cerddwch yr holl ffordd ar hyd y llwybr cerdded. Ar y dde mae argae'r “Machine Pond” – un arall o byllau cyflenwi Gwaith Haearn Nant-y-glo.

Ar y gornel ddeheuol, anwybyddwch y gangen i'r chwith a pharhewch yn syth ymlaen, rhwng y gwrychoedd draenen. Fe ddewch at rwystr beiciau a ffordd. Trowch i'r dde ar hyd y llwybr tuag at y Machine Pond. Adeiladwyd hwn yn 1814 i gysylltu gyda Rheilffordd Clydach. Ar y pryd, roedd yn rhaid i Waith Haearn Nant-y-glo dalu Cendl i ddefnyddio'r lein i fynd â haearn gorffenedig i lawr i'r gamlas yng Ngilwern.

Evch ymlaen tuag at Cendl ar hyd y trac sy'n rhedeg i'r de o'r pwll. Ar ôl prynu gwaith Cendl yn 1833, defnyddiodd Bailey hwn i gyrraedd pyllau glo ar Allt Cendl.

Parhewch ar hyd y trac am ryw 1km yn ôl at y twnnel dros Reilffordd MT & A. Pasiwch borth y twnnel ar y dde a pharhau i lawn Bangor Road, gan basio'r byngalos a chroesi'r ffordd B ar y gylchfan i ddilyn Frost Road. Ar ddiwedd Frost Road, fe ddewch i ardal agored y tu ôl i Theatr a Neuadd Ddawns Cendl. Rydych yn dal ar gwrs Rheilffordd Clydach ac mae Rheilffordd MT & A yn gorwedd i'r dde yr holl ffordd.

Mae ffordd gul y tu ôl i'r Theatr. Dilynwch y ffordd a pharhau ar hyd y ffordd wedi ei harwyddo Waun Goch. Mae Rheilffordd Clydach yn ail ymuno gyda'r A4047 gyferbyn â'r “Greyhound Inn”.

Wrth y Greyhound, trowch i'r chwith ar hyd yr A4047. Ar groesffordd Nelson Street a Wesley Place roedd cangen o Reilffordd Trefil yn dilyn Nelson Street a Raglan Terrace i Waith Haearn Cendl. I'r cyfeiriad arall, roedd yn rhedeg ar hyd Wesley Place a Park View i lefelau glo a mwynfeydd Cwm Gwybedog.

Parhewch ar hyd yr A4047 i Gapel Carmel.

Adeiladwyd Carmel yn 1821 am gost o £140 ar safle talwrn ymladd ceiliogod. Ailadeiladwyd y lle yn 1829 ac erbyn 1851, ar gyfartal roedd 517 o bobl yn oedfaon y bore a 616 yn y nos. Mae adeilad presennol y capel yn ddyddiedig i 1865 a chafodd ei gynllunio gan y pensaer capeli pwysig y Parch. Thomas Thomas o Landore.

Yn ystod gwrthryfel y Siartwyr yn 1839, fe stopiodd mintai Rhasau y tu allan i Gapel Carmel a gofyn i'r gynulleidia eu dilyn i Gasnewydd. Gwrthododd y gynulleidia ac felly fe dorrodd y Siartwyr i mewn i'r Beaufort Arms, yn Beaufort Rise, gan fynnu cwrw a lladd ci'r perchennog



Rheilffordd Rhasau

Gyferbyn â'r capel fe welwch llwybr cerdded tarmac. Mae hwn yn dilyn cwrws Rheilffordd Rhasau a adeiladwyd yn 1796 i gysylltu Gwaith Haearn Sirhywi a Chwareli Trefil gyda Cendl.

Nawr gallwch ddilyn Rheilffordd Rhasau am ychydig dan 1km i ‘Shop Row’ (Clwb Badminton). Hanner ffordd ar hyd y llwybr, gyferbyn â thai henoed “Glan yr Afon”, fe welwch arwyddbost Great Western Railway bach crwn dyddiedig 1900 wedi ei osod ar ochr y lein.

Er mwyn gadael inni wybod a fuoch chi'n mwynhau'r daith neu am ragor o fanylion cysyllter â ni ar 01495 355937 / 07968 472812 alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk

